Torri'r Ddeddf Amddiffyn Data a chamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn 2012

11/03/2013

Yn dilyn fy ebost yn dyddio 4 Mawrth 2013, rydw i nawr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 3 Mawrth 2013 sef:

Hoffwn wybod faint o weithiau y gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru dorri'r Ddeddf Diogelu Data yn 2012. Ym mhob achos hoffwn wybod ym mha ffordd y torrwyd y ddeddf, a pha gamau y cymrwyd yn erbyn yr aelod o staff oedd yn gyfrifol. Hoffwn hefyd wybod faint o achosion a gofnodwyd yn 2012 o staff yn camddefnyddio gwefannau cymdeithasol fel Facebook, Twitter etc, boed hynny yn y gweithle neu'r tu allan. Ym mhob achos, disgrifiwch beth oedd y camddefnydd, nodwch pa wefan a ddefnyddiwyd,a pha gamau a gymrwyd yn erbyn yr aelod o staff.

Yn ôl ein cofnodion, nid oes yr un achos o dorri'r Ddeddf Diogelu Data wedi bod yn 2012, ac nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth ynglyn â chamddefnydd staff o wefannau cyfryngau cymdeithasol yn 2012.

Nid wyf wedi gwneud unrhyw eithriadau, fodd bynnag, os hoffech gwyno ynglyn â'r ffordd y gwnes i ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon neges ebost neu ysgrifennu ataf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips